OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1648 (Cy.156)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2010

Gwnaed - - - -	*21 Mehefin 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*23 Mehefin 2010*
Yn dod i rym - -	*14 Gorffennaf 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 80, 83, 86, 121 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2010 a deuant i rym ar 14 Gorffennaf 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992(**2**).

Diwygio rheoliad 2 o'r prif Reoliadau

2. Yn rheoliad 2 (dehongli) o'r prif Reoliadau–

(a) yn y diffiniad o "terms of service"—

(i) yn is-baragraff (b) ar ôl y geiriau "Schedule 2" hepgorer "." a mewnosoder ", and", a

(ii) mewnosoder fel is-baragraff (c) y geiriau "in relation to suppliers of appliances, in Schedule 2A."; a

(b) ym mharagraff (1C) ar ôl y geiriau "where these words occur" mewnosoder "except in the definition of "equivalent body"".

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 1992/662. Offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2007/205 (Cy.19), O.S. 2009/1491 (Cy.144) ac O.S. 2010/868 (Cy.90).

Diwygiadau i Atodlen 2 i'r prif Reoliadau

3.—(1) Diwygir Atodlen 2 i'r prif Reoliadau yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff 10A (gofynion ychwanegol mewn perthynas â chyfarpar penodedig), yn is-baragraff (6)(a) yn lle "25(A)(1)" rhodder "24A(1)".

(3) Ym mharagraff 24A, o flaen y geiriau "24A" mewnosoder fel teitl y paragraff "Temporary opening hours and closures during an emergency requiring the flexible provision of pharmaceutical services".

Diwygiadau i Atodlen 2A i'r prif Reoliadau

4.—(1) Diwygir Atodlen 2A i'r prif Reoliadau yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff 6 (materion cychwynnol cyn darparu cyfarpar)—

(a) yn lle is-baragraff (3)(a) rhodder—

"(a) the supplier of appliances must ask any person who makes a declaration that the person named on the prescription form or repeatable prescription does not have to pay the charges specified in regulation 3 of the Charges Regulations by virtue of either—

(i) entitlement to exemption under regulation 8 of the Charges Regulations, or

(ii) entitlement to remission of charges under regulation 5 of the Remission of Charges Regulations,

to produce satisfactory evidence of such entitlement unless the declaration is in respect of entitlement to exemption by virtue of regulation 8 of the Charges Regulations or in respect of entitlement to remission by virtue of regulation 5(1)(e) or (2) of the Remission of Charges Regulations and at the time of the declaration the supplier of appliances already has such evidence available to him;"; a

(b) yn lle is-baragraff (3)(c) rhodder—

"(c) in the case of an electronic prescription form or an electronic repeatable prescription, the supplier of appliances must comply with any requirements of the ETP service to provide—

(i) a record of the exemption from or remission of charges claimed and whether satisfactory evidence was produced, as referred to in sub-paragraph (a), and

(ii) in any case where a charge is due, confirmation that the relevant charge was paid.".

(3) Ym mharagraff 12 (oriau agor: cyffredinol)—

(a) yn is-baragraffau (1)(b) ac (c) yn lle "paragraph 4 of Schedule 2" rhodder "Part 3 of Schedule 2"; a

(b) yn is-baragraff (5) ar ôl y geiriau "obligations under sub-paragraph (1) the supplier of appliances" mewnosoder "must".

(4) Ym mharagraff 14 (penderfyniad ar oriau agor a annogir gan y Bwrdd Iechyd Lleol)—

(a) yn is-baragraffau (3)(b) ac (c) yn lle "paragraph 4 of Schedule 2" rhodder "Part 3 of Schedule 2"; a

(b) yn is-baragraff (3)(c) yn lle "paragraph 13(1)(a)" rhodder "paragraph 12(1)(a)".

(5) Ym mharagraff 15 (penderfyniad ar oriau agor a annogir gan gyflenwr cyfarpar)—

(a) yn is-baragraffau (4)(b) ac (c) yn lle "paragraph 4 of Schedule 2" rhodder "Part 3 of Schedule 2"; a

(b) yn is-baragraff (4)(c) yn lle "paragraph 13(1)(a)" rhodder "paragraph 12(1)(a)".

(6) Ym mharagraff 18 (cymelliadau)—

(a) yn is-baragraff (3)(a) yn lle "11(1)(4) or 12(1)(a)" rhodder "10(4) or 11(1)(b)"; a

(b) yn is-baragraff (3)(b) yn lle "12(1)(a)" rhodder "11(1)(a)".

(7) Diwygir y paragraff 20 cyntaf (y ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth ynghylch materion ffitrwydd i ymarfer: cyflenwyr cyfarpar sydd ar restrau fferyllol ar 1 Ebrill 2010) fel a ganlyn—

(a) caiff ei rifo o'r newydd yn baragraff 19;

(b) yn is-baragraff (1) yn lle "paragraph 22" rhodder "paragraph 21"; ac

(c) yn is-baragraff (2) yn lle "paragraph 26" rhodder "paragraph 21".

(8) Diwygir paragraff 19 (y ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth ynghylch materion ffitrwydd i ymarfer fel y maent yn codi) fel a ganlyn—

(a) caiff ei rifo o'r newydd yn baragraff 20;

(b) yn is-baragraff (1) yn lle "paragraph 26" rhodder "paragraph 21"; ac

(c) yn is-baragraff (2) yn lle "paragraph 22" rhodder "paragraph 21".

(9) Diwygir yr ail baragraff 20 (Bwrdd Iechyd Lleol cartref cyrff corfforaethol) fel a ganlyn—

(a) caiff ei rifo o'r newydd yn baragraff 21; a

(b) yn lle "paragraphs 20 and 21 and 25(4)(a) and (b)" rhodder "paragraphs 19, 20 and 24(3) and (4)".

(10) Diwygir paragraff 21 (cwynion) fel a ganlyn–

(a) caiff ei rifo o'r newydd yn baragraff 22; a

(b) yn lle'r paragraff rhodder y paragraff a osodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(11) Caiff paragraff 22 (gwasanaethau a gyfarwyddir) ei rifo o'r newydd yn baragraff 23.

(12) Diwygir paragraff 23 (gwybodaeth sydd i'w rhoi) fel a ganlyn—

(a) caiff ei rifo o'r newydd yn baragraff 24; a

(b) yn is-baragraffau (3) a (5) yn lle "sub-paragraph (9)" rhodder "sub-paragraph (7)".

(13) Caiff paragraff 24 (tynnu'n ôl o restrau fferyllol) ei rifo o'r newydd yn baragraff 25.

(14) Caiff paragraff 25 (taliadau am gyfarpar) ei rifo o'r newydd yn baragraff 26.

(15) Caiff paragraff 26 (arolygiadau a chael at wybodaeth) ei rifo o'r newydd yn baragraff 27.

Diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2010

5.—(1) Diwygir rheoliad 16 (trefniant trosiannol) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2010(**3**) yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff (3), yn lle "Chyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Cymru) 2010" rhodder "Chyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch) (Cyfarpar) (Cymru) 2010"(**4**).

(3) Yn lle paragraff (5) o'r testun Saesneg rhodder–

(**3**) O.S. 2010/868 (Cy.90).

(**4**) Ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru: www.cymru.gov.uk/legislation/?lang=cy.